# MANTEISION YMGORFFORI STOC MEWN TIR ÂR CYLCHDRO

Mae system ffermio gymysg, yn seiliedig ar dda byw a chnydio, yn rhan sylfaenol o ffermio organig, amaeth-acoleg ac adfywiol.

**Pam ymgorffori da byw?**

Un o'r prif ffyrdd o wella iechyd y pridd yw integreiddio anifeiliaid; bydd planhigyn sydd wedi cael ei bori yn ffotosyntheseiddio mwy ac yn pwmpio mwy o garbon hylifol i'r pridd o'i gymharu â phlanhigyn sydd heb ei bori.

**Mae manteision eraill yn cynnwys...**

- Gwelliannau yn iechyd, strwythur a ffrwythlondeb y pridd
- Gwell sefydlogrwydd pridd, gwrthsefyll sychder, ymdreiddiad dŵr a chynhwysedd dal dŵr
- Gwelliant o ran rheoli chwyn – yn enwedig Cynffonwellt du
- Cynnydd mewn cynhyrchiant – cynyddu refeniw
- Cyfle i arallgyfeirio – risgiau o ledaenu cynhyrchiant
- Lleihau'r defnydd o gemegau – lleihau costau mewnbwn
- Lleihad mewn erydiad a chywasgiad pridd
- Cynnydd mewn bioamrywiaeth
- Cynnydd mewn deunydd organig pridd (SOM) – gall defaid hybu cynnydd o 35% mewn SOM
- Cylch maetholion

**Beth yw'r manteision i fenter da byw?**

- Pori glân, heb barasitiaid ar gyfer y da byw
- Mae meillion sy'n gosod nitrogen ac adeiladu ffrwythlondeb yn cynnig maeth da a chyfraddau twf cyflym
- Mae gan wyndwn sy'n ymgorffori llawer o rywogaethau ac sy'n cynnwys planhigion fel ysgellog briodweddau cynhyrchion lladd llyngyr, gan leihau costau milfeddygon
- Gall gaeafu anifeiliaid allan leihau'r angen am siediau, gan leihau costau'n sylweddol
- Gellir rhoi premiwm os caiff da byw eu pesgi ar laswellt yn unig

***O ble mae'r da byw yn dod? A yw'r da byw eisoes ar y fferm neu a fyddant yn dod i mewn?***

Mae'r gofynion pori ar gyfer diadell o ddefaid bridio neu fuches sugno yn wahanol iawn i'r hyn sydd ei angen ar gyfer pesgi ŵyn neu bîff. Mae'r penderfyniad yn pennu'r strategaeth a'r model ffermio/busnes.

**Opsiynau ar gyfer cydweithio rhwng ffermwyr tir âr a ffermwyr da byw**

- Porfa aeaf i ddefaid dros y gaeaf (e.e. hau glaswellt o dan gnwd india corn)
- Cynnal da byw eraill sy'n gaeafu allan (buchod sych, heffrod magu, gwartheg bîff ac ati)
- Bargeinion gwellt am dail
- Cytundeb/trwydded pori neu dorri
- Cytundeb tenantiaeth busnes fferm
- Prynu/bargen ar gyfer tail dofednod neu foch
- Mentrau ar y cyd
- Cynhyrchu moch yn yr awyr agored

# Dulliau cyffredin...

| CYFLE | MANTEISION | PETHAU I'W HYSTYRIED |
|---|---|---|
| **Glaswellt, meillion a gwyndwn llysieuol**<br>• Pori'r cnydau gan ddefnyddio da byw sy'n eiddo i'r ffermwr<br>• Contract magu<br>• Rhentu tir pori am dymor neu oes gwyndwn<br>• Defaid ar borfa aeaf dros y gaeaf<br>• Gwerthu fel cnwd sy'n sefyll neu fel silwair/gwair | • Rheoli chwyn e.e Cynffonwellt du<br>• Torri cylchoedd afiechyd<br>• Gwella strwythur y pridd<br>• Ychwanegu deunydd organig<br>• Mae da byw yn ychwanegu maetholion | • Gellir ei ddefnyddio mewn cylchdro o un i dair blynedd neu fwy<br>• Mae amseriad y sefydliad yn hyblyg (mis Ebrill - mis Medi)<br>• Gall cystadleuaeth chwyn fod yn broblem yn hwyr yn y tymor<br>• Dylid samplo pridd chwe mis cyn sefydlu glaswellt (deufis ar ôl taenu tail, gwrtaith neu galch diwethaf)<br>• Mae'n bwysig dewis y math/cymysgedd cywir gan y bydd hyn yn effeithio ar gost hadau a hirhoedledd<br>• Mae rhai mathau'n perfformio'n well o dan y drefn silwair nag o dan y drefn pori (ac i'r gwrthwyneb) |
| **Gorchuddio cnydau**<br>• Cnydau gaeaf fel porthiant i wartheg a defaid | • Diogelu pridd rhag erydiad<br>• Mae gwreiddiau'n darparu angorfa a ffynhonnell porthiant ar gyfer bioleg y pridd<br>• Ailgylchu maetholion gan leihau perygl o lygredd<br>• Mae deunydd planhigion yn gwella deunydd organig y pridd<br>• Gwell ymdreiddiad dŵr pridd<br>• Llai o ddŵr ffo o bridd a maetholion i gyrsiau dŵr | • Mae cnydau tymor byr, fel arfer yn cael eu tyfu a'u bwyta mewn llai na blwyddyn<br>• Tyfir cnydau gorchudd rhwng y cynhaeaf a sefydlu'r prif gnwd<br>• Glaswellt a grawn (e.e ceirch, rhyg a rhygwellt) yn addas ar gyfer pori ac yn darparu gorchudd tir cynnar da<br>• Gellir pori brassica a heuwyd yn yr hydref (e.e radis, maip a mwstard) yn ofalus wrth ddarparu gwreiddiau dwfn.<br>• Mae codlysiau addas ar gyfer gosod nitrogen yn cynnwys codog, ffacbys a meillion<br>• Mae rhywogaethau cnwd gorchudd eraill yn cynnwys ysgellog, llyriaid a gwenith yr hydd<br>• Gall pori ryddhau mwy o faetholion ar gyfer y cnwd canlynol o gymharu â dinistr mecanyddol neu gemegol |

**Ffactorau pwysig i'w hystyried**

› Isadeiledd – cyfleusterau dŵr a bwydo, ffensys, systemau trin, siediau (os oes angen)
› Dylid ceisio cyngor cyfreithiol i greu cytundeb os ydych yn gweithio gyda ffermwyr eraill
› Peryglon clefyd e.e twbercwlosis mewn gwartheg (TB)
› Dylai da byw gael eu rheoli gan stocmyn hyfforddedig/profiadol
› Dylid cwblhau trwyddedau symud
› Trawsgydymffurfio
› Gwirio addasrwydd tir ar gyfer da byw

Ariennir gan
**Lywodraeth Cymru**
Funded by
**Welsh Government**